Rydym am gyflogi:

GOFALWR rhan amser

Mae Calon y Fferi yn ran o Grŵp Menter Cymdeithasol Glanyfferi yn cefnogi cymuned a busnes lleol. Rydym am gyflogi Gofalwr i hwyluso rhediad esmwyth Canolfan y Gymuned sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio'n hyblyg, lleiafswm o 10 awr yr wythnos (yn cynnwys oriau tu allan i oriau gwaith arferol) gyda'r potensial am oriau gwaith ychwanegol yn ôl yr angen.

Prif bwrpas y swydd fydd helpu gyda chynnal a chadw cyffredinol o Ganolfan y Gymuned, gweithio o fewn tîm staff mwy eang i sicrhau glendid a diogelwch y Ganolfan tra'n hyrwyddo perthynas hapus yn unol ag ethos Grŵp Menter Cymdeithasol Glanyfferi. Wrth i'r Ganolfan ddatblygu, bydd angen i'r rôl addasu.

Cyflog **£5720** y flwyddyn(seiliedig ar 10 awr yr wythnos@£11 yr awr)

Bydd dyletswyddau disgwyliedig yn cynnwys:

Cyffredinol:

- Helpu gyda chynnal a chadw Canolfan y Gymuned
- Helpu gyda pharatoi ystafelloedd cyfarfod yn ôl yr angen ar gyfer archebion
- Agor a chau'r Ganolfan fel bo angen yn cynnwys nosweithiau a phenwythnosau.
- Sicrhau bod sbwriel yn cael ei waredu'n brydlon ac yn cael ei storio i ffwrdd o'r prif adeilad
- Dyletswyddau glanhau cyffredinol.

Cynnal a chadw

- Archwilio tu fewn a thu allan i'r adeilad am lendid cyffredinol a thrwsio yn rheolaidd
- Cynnal a chadw, a mân atgyweiriadau i'r adeilad a gosodiadau, o fewn y terfynau y cytunwyd arnynt.
- Adrodd am unrhyw ddiffygion yn yr adeilad, celfi, ac unrhyw offer i Reolwr y Ganolfan.
- Monitro glendid y maes parcio, casglu sbwriel a gwagio biniau yn ôl yr angen.
- Helpu gyda garddio a gofal am yr ardal allanol.
- Peintio ac ailaddurno fel bo'n briodol.
- Glanhau llanast mewn argyfwng.

Diogelwch

- Helpu gyda phrofi'r larwm tân yn rheolaidd a goleuadau argyfwng. Cadw cofrestr prawf
- Sicrhau bod ffyrdd clir yn cael eu cadw i sicrhau dihangfa mewn argyfwng.

- I fod yn berson cyntaf i'w gysylltu ag ef mewn argyfwng, ymateb i , ac ail osod y larwm tân, cysylltu â'r gwasanaeth tân, a'r cwmni larwm tu allan i oriau fel bo'r angen.
- Unrhyw ddyletswyddau arall yn ôl yr angen ar gyfer datblygu Canolfan y Gymuned.

O bryd i'w gilydd gellir eich galw allan mewn oriau anghymdeithasol neu ar benwythnosau i ddelio gyda materion diogelwch, i wneud atgywiriadau brys neu caniatau mynediad i gontractwr fydd yn gweithio ar y safle.

Sgiliau - hanfodol:

- Sgiliau rhyngbersonol da
- Profiad ymarferol neu hyfforddiant mewn sgiliau atgyweirio, adeiladu neu debyg
- Deall ymarfer gweithio diogel a deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Dawn i ddilyn cyfarwyddyd
- Dawn i weithio'n hyblyg ar eich pen eich hun neu fel rhan o dîm ac addasu i anghenion y rôl
- Rheoli amser yn dda a sgiliau aml dasg
- Bod yn gyfrifol yn onest ac yn ddibenadwy

Sgiliau - dymunol

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Y gallu i ddehongli gwybodaeth dechnegol
- Mynediad i'ch trafnidiaeth eich hun

I wneud cais:

Ebostiwch jobs@calonyfferi.org gyda'ch CV a llythyr cais.
Caiff cyfweliadau eu cynnal yng Nghanolfan y Gymuned Calon y Fferi, Heol Caerfyrddin, Glanyfferi SA17 5TE. Rhaid i ymgeiswyr allu ddod am gyfweliad fydd yn digwydd ar y 15fed. o Fedi 2023